**Boicot Marcio ac Asesu'r Brifysgol (BMA)**

## 1. Galw Rheoliadau Wrth Gefn

Dywed Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol (LIAA) y canlynol o ran rheoliadau wrth gefn **(LIAA 6.5.1 (3) A 6.6.1 (3)):**

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Brifysgol benderfynu defnyddio rheoliadau wrth gefn a weithredir i sicrhau bod gan fyfyrwyr y cyfle i symud ymlaen neu ennill dyfarniad yng ngoleuni'r amgylchiadau eithriadol hynny. Wrth ystyried rheoliadau wrth gefn, caiff cynrychiolwyr myfyrwyr eu cynnwys yn rhan o'r broses benderfynu. Nod rheoliadau wrth gefn y Brifysgol yw diogelu safonau gofynnol y Brifysgol a sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais annheg yn sgil digwyddiadau y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol. Cyhoeddir rheoliadau dilyniant a dyfarnu wrth gefn y Brifysgol fel atodiad i'r bennod hon. Bydd y Brifysgol yn ystyried priodoldeb y rheoliadau wrth gefn a gall eu diwygio i fodloni anghenion yr amgylchiadau eithriadol wrth iddynt ddatblygu. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y Brifysgol yn hysbysu myfyrwyr yn ffurfiol am unrhyw newidiadau i reoliadau.

## 2. Rhybudd o weithrediad rheoliadau wrth gefn ar gyfer BMA

Os bydd tarfu sylweddol, dim ond pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Academaidd (PSA) wedi'u galw'n ffurfiol ar gyfer rhaglenni penodol y gweithredir y rheoliadau hyn. Ar bob amser arall, bydd prif reoliadau'r Brifysgol ar waith.

Wedi iddynt gael eu galw, ac oni bai y nodir fel arall, bydd y rheoliadau wrth gefn yn disodli prif reoliadau'r Brifysgol. Ni fydd yr holl fesurau lliniaru yn cael eu cymhwyso ym mhob achos, ond bydd Bwrdd Arholi yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar natur y tarfu i unigolyn neu garfan.

## 3. Egwyddorion a thybiaethau allweddol

Bydd yr egwyddorion a thybiaethau allweddol a ganlyn yn berthnasol:

- Mae disgwyl o hyd i bob myfyriwr ymgysylltu ag addysgu a chyflwyno/mynychu eu hasesiadau'n ôl yr arfer.
- Bydd yr holl waith a gyflwynir yn cael ei farcio a bydd myfyrwyr yn derbyn "marc gwirioneddol" ar gyfer eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod efallai y bydd oedi wrth gadarnhau'r marciau hyn o ganlyniad i'r BMA.
- Bydd safonau dyfarniadau'r Brifysgol yn cael eu cynnal bob amser.
- Ni fydd y BMA yn atal yr un myfyriwr rhag graddio/symud ymlaen, er efallai y caiff eu graddio ei oedi.
- Dylid dilyn protocolau asesu normal (h.y. rheoliadau asesu, rhyddhau aseiniadau, cyflwyno aseiniadau, dirwyon am gyflwyno'n hwyr, polisïau peidio â chyflwyno gwaith, amgylchiadau esgusodol, camymddwyn academaidd ayb).
- Lle bo angen, bydd hyblygrwydd o ran y gweithdrefnau ar gyfer cymedroli mewnol gwaith asesedig ac o ran arholi'r gwaith yn allanol.
- Lle bo marciau ar goll oherwydd y BMA, a lle ystyrir addasiadau'n hanfodol, rhaid bod cysondeb a thegwch wrth gymhwyso'r rheoliadau wrth gefn hyn i garfannau myfyrwyr. Fodd bynnag, ni ellir cymhwyso'r canllaw hwn os yw'n gwrthdaro gyda gofynion y Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB) ac ni ellir gwneud addasiadau i raglenni PSRB heb gymeradwyaeth y PSRB.

## 4. Marcio a Chymedroli gwaith asesedig

Lle bo'n bosibl, bydd gwaith yn cael ei gymedroli yn y Brifysgol ac ar ran sefydliadau partner, yn ôl yr arfer. Os nad yw hyn yn bosibl, gellid gwneud y canlynol:

- Lle byddai marcio dwbl a welir neu farcio dwbl nas welir yn cael eu defnyddio fel arfer, dylid cymedroli drwy ddefnyddio sampl o'r garfan.
- Lle nad yw marcio neu gymedroli dwbl yn bosibl, caiff gwaith ei farcio gan unigolyn.
- O ran perfformiadau, sioeau a chyflwyniadau y bydd dau aelod o staff fel arfer yn eu mynychu a'u hasesu, gall un aelod o staff eu mynychu a chaiff yr asesiad ei recordio a'i gymedroli gan aelod arall o staff ar ôl y digwyddiad.

Lle nad yw modwl wedi'i gymedroli/farcio'n ddwbl yn fewnol, dylai tîm y rhaglen drafod gyda'r Arholwr Allanol a gofyn iddynt ystyried y modwl hwnnw'n rhan o'u cymedroli. Os nad oedd y modwl hwnnw'n rhan o sampl cytûn yr Arholwr Allanol o fodylau ar gyfer y flwyddyn academaidd yn barod, gellid ei gyfnewid am un sydd er mwyn sicrhau cywerthedd o ran llwyth gwaith. Y disgwyliad yw bod pob modwl yn cael ei weld gan yr Arholwr Allanol yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

Ni ellir addasu'r broses farcio a chymedroli ar gyfer rhaglenni PSRB heb gymeradwyaeth y PSRB.

Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Academaidd gymeradwyo unrhyw fesurau amgen.

## 5. Gwirio cyn bwrdd arholi

Lle nad yw marcio wedi digwydd oherwydd y BMA, dylai'r Athrofa wirio'r gwaith a gyflwynwyd gan bob myfyriwr a chofnodi unrhyw waith sydd heb ei gyflwyno ar y system briodol y Gofrestrfa.

## 6. Gweithredu Byrddau Arholi

### Cyfarfodydd Byrddau Arholi

Bydd y Gofrestrfa ac Athrofeydd yn gweithio gyda'i gilydd i nodi p'un a oes perygl na fydd Bwrdd Arholi'n gallu cael ei gynnal. Os oes, tri diwrnod gwaith cyn y Bwrdd arfaethedig, cynhelir cyfarfod rhwng y Deon (neu enwebai) a Phennaeth Gweithredol y Gofrestrfa (neu enwebai) a Chadeirydd ASC (neu enwebai) i edrych ar safle marciau'r rhaglen(ni) sydd i'w hystyried. Bydd y cyfarfod hwn yn penderfynu naill ai:

i. Gall y Bwrdd fynd yn ei flaen yn ôl yr arfer.
ii. Gall y Bwrdd fynd yn ei flaen ar gyfer rhai rhaglenni ond bydd rhaglenni eraill yn dod o dan gategori iii.
iii. Gall y Bwrdd fynd yn ei flaen yn unol â'r rheoliadau wrth gefn.

## 6.2 Arholwr Allanol yn Ymddiswyddo

Noda'r Brifysgol bod canllaw UCU ar gyfer arholwyr allanol yn dweud bod disgwyl iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau (UCU - Marking and assessment boycott FAQs). Os bydd arholwr allanol yn ymddiswyddo ac ni ellir cael rhywun arall yn eu lle, gweler: Protocol Arbenigedd Allanol (Adran 2.3.7 (3)) sy'n darparu canllawiau.

## 7 Tarfu ar Fyfyrwyr sy'n symud ymlaen neu'n ailsefyll (Israddedig ac Ôl-raddedig Rhan 1).

- Gellir caniatáu i fyfyrwyr fynd ymlaen a chario uchafswm o 40 credyd i'r flwyddyn academaidd nesaf.
- Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol y gallai hyn olygu canlyniadau ariannol a dylid ceisio arweiniad priodol gan y Brifysgol (moneysupport@uwtsd.ac.uk)
- Y disgwyliad yw y caiff marciau sydd ar goll ar gyfer asesiadau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Arholi priodol nesaf.

## 8 Tarfu ar fyfyrwyr sy'n cwblhau ar Lefel Israddedig

Gall y Bwrdd Arholi wneud penderfyniad am ddosbarth terfynol myfyriwr ar yr amod nad oes gofynion neu gyfyngiadau o ran y Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB), a bod y myfyriwr wedi bodloni holl ddeilliannau dysgu'r rhaglen.

Bydd gan y myfyriwr yr opsiwn i dderbyn y dyfarniad neu ail-gyfrifo'u dyfarniad pan fydd marc yr asesiad ar gael. Ni fydd myfyrwyr dan anfantais wrth ailgyfrifo'r dyfarniad, oni bai y bydd cyhuddiadau a brofir o gamymddwyn academaidd.

Gweler hefyd adran 10.

### 8.1 Rheoliadau Wrth Gefn (Dyfarniadau Israddedig)

Caiff dosbarth dyfarniadau graddau Anrhydedd eu pennu naill ai gan gyfartaledd cyfanswm y marciau a geir yn y 100 credyd gorau ar Lefel 6 (pwysiad dwbl) a'r 100 credyd gorau ar Lefel 5 neu uwch (pwysiad sengl), neu gan gyfartaledd y marciau a gyflawnwyd yn y 100 credyd gorau ar Lefel 6 yn unig. Bydd yr un egwyddor yn berthnasol i ddyfarniadau israddedig eraill (dyfernir DipAU yn ôl y 100 credyd gorau ar Lefel 5 yn unig, a ThystAU yn ôl y 100 credyd gorau ar Lefel 4 yn unig).

Fel cynllun wrth gefn, mae'r Brifysgol yn cyfrifo'r dyfarniad gydag 20 credyd ar goll. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn pennu dosbarth gradd yn ôl y 100 credyd gorau.

### 8.2 Ar gyfer y rheoliadau wrth gefn, golyga'r diwygiadau:

- Yn hytrach na defnyddio'r **100** credyd gorau ar Lefel 6 (pwysiad dwbl) a'r 100 credyd gorau ar Lefel 5 neu uwch (pwysiad sengl), byddwn yn defnyddio'r **100 credyd sydd ar gael** ar Lefel 6 (pwysiad dwbl) a'r 100 credyd gorau ar Lefel 5 neu uwch (pwysiad sengl).
- Yn hytrach na defnyddio cyfartaledd y marciau a gyflawnwyd yn y **100 credyd gorau** ar Lefel 6 yn unig, byddwn yn defnyddio cyfartaledd y marciau a gyflawnwyd yn y **100 credyd sydd ar gael** ar Lefel 6 yn unig.

### 8.3 Tarfu ar fyfyrwyr sy'n cwblhau sydd â chyfyngiadau visa ac yn dymuno gwneud cais am Visa Graddedigion

Lle bo'r holl waith wedi'i gyflwyno ond heb ei farcio oherwydd y BMA a dymuna'r myfyriwr wneud cais am **Visa Graddedigion** ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, byddwn yn cadarnhau bod y myfyriwr wedi cwblhau eu cwrs ac yn darparu dosbarth pan fydd ar gael.

## 9 Myfyrwyr ar raglenni Ôl-raddedig (Rhan II) ac Ymchwil Ôl-raddedig

Ni wnaed dim newidiadau i'r rheoliadau ar gyfer y rhaglenni hyn (ac eithrio'r isod)

### 9.1 Tarfu ar fyfyrwyr Ôl-raddedig sy'n cwblhau sydd â chyfyngiadau visa ac yn dymuno gwneud cais am Visa Graddedigion

Lle bo'r holl waith wedi'i gyflwyno ond heb ei farcio oherwydd y BMA a dymuna'r myfyriwr wneud cais am **Visa Graddedigion** ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, byddwn yn cadarnhau bod y myfyriwr wedi cwblhau eu cwrs ac yn darparu dosbarth pan fydd ar gael.

## 10 Myfyrwyr ar raglenni a lywodraethir gan Gyrff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio

Os oes gofynion Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio (PSRB) sy'n galw am fodloni deilliannau dysgu penodol, gall y Bwrdd gymryd y camau a ganlyn:

- Rhoi eu dyfarniad i fyfyrwyr sy'n cwblhau, ond byddai angen iddynt gyflawni eu gofynion cofrestru proffesiynol ar wahân.
- Peidio â rhoi'r dyfarniad nes y gellir bodloni gofynion y PSRB.
- Caniatáu i fyfyrwyr nad ydynt yn cwblhau symud ymlaen, ar yr amod nad yw symud ymlaen i fodwl/lefel newydd yn ddibynnol ar gwblhau rhagofyniad sydd heb ei fodloni oherwydd y BMA.